

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLWYDCOED

Cofnodion o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyd-bwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Merthyr Tudful ddydd Mawrth, 19 Mehefin 2018 am 2pm.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

M. Colbran, J. Thomas, D. Isaac a D. Chaplin

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

A. Crimmings (Mrs), H. Boggis a G. Jones

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms J. Lewis – Rheolwr Gwasanaethau Profedigaethau
Mr N. Griffiths – Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol – Cyfadran y Gwasanaethau
Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mrs L. Coughlan – Cyfreithiwr

1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Roedd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol K. Morgan ac A. S. Fox (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf).

2 DATGAN BUDDIANT

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

3 ETHOL CADEIRYDD CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLWYDCOED AR GYFER 2018-19

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol H. Boggis yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer blwyddyn 2018-19 y Cyngor.

4 ETHOL IS-GADEIRYDD CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLWYDCOED AR GYFER 2018-19

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D. Isaac yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer blwyddyn 2018-19 y Cyngor.

5 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion o gyfarfod Cydbwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2018 yn rhai cywir, yn ddibynnol ar y canlynol:

- 5.1 Nodwyd yn y cofnodion bod y Cynghorydd G. Jones wedi cynghori'r Pwyllgor ei fod wedi bod mewn cysylltiad â'r Côr Meibion lleol a oedd wedi cytuno i gymryd rhan yn y gwasanaeth carolau Nadolig.
- 5.2 Cofnod Rhif 22 – cafodd y Pwyllgor wybod bod gweithredu cynllun peilot 12 mis mewn perthynas â ffioedd profedigaeth ar gyfer cyn-filwyr y lluoedd arfog bellach wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, felly **PENDERFYNWYD** gweithredu cynllun peilot 12 mis mewn perthynas â ffioedd profedigaeth ar gyfer cyn-filwyr y lluoedd arfog.
- 5.3 Cofnod Rhif 23 – mewn ymateb i ymholiad a godwyd mewn perthynas â chyfarfodydd y Cydbwyllgor yn y dyfodol i'w cynnal yn Amlogfa Llwydcoed, nodwyd nad oedd y costau yn dilyn y gwaith adfer ategol wedi eu cadarnhau hyd yn hyn. Serch hynny, byddai dal yn opsiwn cynnal cyfarfodydd yno yn y dyfodol.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL (DRAFFT) AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 MAWRTH 2018

Trafodwyd adroddiad y Trysorydd gan yr Aelodau.

Yn dilyn trafodaethau ynghylch y trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i gynnal a chadw'r gerddi yn Amlogfa Llwydcoed, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau bod hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a'i fod yn ystyried cyflogi aelod parhaol o staff ar gyfer y dyfodol yn hytrach na defnyddio aelod o staff asiantaeth.

Cafodd aelodau wybodaeth mewn perthynas â'r materion:

- Cyflawniad ariannol a thrafodion cronfeydd mae modd eu defnyddio
- Mantolen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018
- Gweddillion y Gronfa gyffredinol 2012/13 hyd at 2017/18

Yn dilyn ystyried a thrafod y mater, gan hynny, **PENDERFYNWYD –**

- (1) Nodi'r adroddiad.
- (2) Nodi'r Datganiad Blynyddol wedi'i archwilio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.
- (3) Bod Cadeirydd y Cyd-bwyllgor yn llofnodi'r Adran Cymeradwyo ac Ardystio sy'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol.
- (4) Nodi a chymeradwyo Adroddiad Terfynol yr Archwiliad Mewnol

ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU

7 YSTADEGAU A CHYFLAWNIAD

Yn ei hadroddiad, rhoddodd y Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau Ystadegau a ffigurau Cyflawniad i'r Aelodau sy'n ymwneud â gweithrediad yr Amlogfa ers y cyfarfod diwethaf ac yn dilyn ystyried yr eitemau hynny, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth.

8 YMWELIAD AELODAU AG AMLOSGFA LLWYDCOED

Cafodd y Pwyllgor wybod fod Aelodau wedi ymweld ag Amlogfa Llwydcoed ddydd Llun 30 Ebrill, 2018. Roedd yr ymweliad yn ddefnyddiol iawn. Roedd y gwaith a wnaed o gwmpas y safle, yn enwedig y gwaith a wnaed i'r ardd goffa, sy'n cael ei defnyddio gan lawer o bobl, wedi creu argraff dda ar yr Aelodau.

Cafodd yr Aelodau wybod bod modd ail-drefnu ymweliad pellach, os oes angen, rywbryd yn y dyfodol, i'r rhai nad oedd yn gallu bod yn bresennol.

9 MATER BRYD

Holodd yr Aelodau a oedd dyddiad wedi'i drefnu ar gyfer y Gwasanaeth Carolau.

Mewn ymateb, dywedwyd nad oedd unrhyw ddyddiad wedi'i drefnu eto, serch hynny, byddai Aelodau'n cael gwybod cyn gynted â bod dyddiad wedi'i drefnu.

**H.BOGGIS
CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.17pm